Duw a'r Ddiod Gadarn: Americaneiddio hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol y Cymry ym myddin yr Undeb yn ystod y Rhyfel Cartref

Aled Jones

Cyflwynwyd: 26 Ionawr 2021; Derbyniwyd: 4 Gorffennaf 2022

Crynodeb: Mae'r erthygl hon yn dangos sut yr oedd bywyd bob dydd ym myddin yr Undeb yn ystod Rhyfel Cartref America (1861–5) wedi dylanwadu'n sylweddol ar esblygiad hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol y Cymry, gan ganolbwyntio ar rôl crefydd ac alcohol. Yn wreiddiol, roedd crefydd yn rhoi cysur diwylliannol i wirfoddolwyr Cymraeg wrth iddynt geisio sefydlu cnewyllyn o'u diwylliant brodorol yn y rhengoedd. Fodd bynnag, daeth ffydd gyffredin Gristnogol i uno milwyr o Gymru ac o du hwnt i Gymru, gan weithredu fel rhwymyn o gymrodoriaeth. Er i lawer o Gymry osgoi alcohol oherwydd eu magwraeth lem, draddodiadol, bu nifer fawr ohonynt yn yfed yn frwd i gyfleu eu gwrywdod. Daeth y ddefod o gynnig cwrw a wisgi i gymrodyr yn weithgaredd cymdeithasol hanfodol, a greodd hunaniaeth filwrol nodedig Americanaidd.

Allweddeiriau: Rhyfel Cartref America, Cymreig, Cymraeg, hunaniaeth, gwirfoddolwyr.

Whisky and the Lord: The Americanization of Welsh National and Cultural Identity in the Union Army during the Civil War

Summary: This article demonstrates how daily life in the Union army during the American Civil War (1861–5) dramatically influenced the evolution of Welsh cultural and national identity, by concentrating on the role of religion and alcohol. Initially, religion proved a source of cultural comfort for Welsh volunteers, as they sought to create a bastion of native culture and spirituality. However, shared Christian belief soon came to unite both Welsh and non-Welsh soldiers, acting as a mutual bond of comradeship. While many Welshmen avoided drinking because of their strict, conservative upbringing, many others indulged freely to convey their masculinity. The act of offering beer and whisky to comrades became a social activity, which created an inherently American martial identity.

Key words: American Civil War, Welsh, the Welsh language, identity, volunteers.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

> I am one of the multitude of 'hyphenated' Americans, born across the water but reared under the flag. I am a Cambro-American, proud of both designations, and with abundant heart, loyalty, and perhaps too much head pride in both.[1]

Ysgrifennwyd y geiriau hyn gan y milwr Jenkin Lloyd Jones, fel aelod o Fagnelfa'r 6ed Wisconsin, yn ei gyflwyniad i'w ddyddiadur *An Artilleryman's Diary,* lle y cofnododd ei brofiad helbulus yn y Rhyfel Cartref rhwng 1861 a 1865. Roedd ei ddatganiad fel *Cambro-American* yn adlewyrchu cred miloedd o Gymry eraill a wirfoddolodd i ymladd dros yr Undeb yn ystod y rhyfel. Dros genedlaethau cyn y rhyfel, bu i'r Cymry ar wasgar yn America ddatblygu hunaniaeth ddeuol. Mewn nifer o gymunedau yn nhaleithiau gogleddol y wlad, diogelwyd craidd eu hunaniaeth a'u traddodiadau brodorol. Mewn cadarnleoedd cymdeithasol o'r fath, bu'r Cymry'n mynychu gwasanaethau mewn capeli Cymraeg, yn trefnu Eisteddfodau lleol, taleithiol a chenedlaethol ac yn cystadlu ynddynt, yn ogystal â darllen papurau newydd trwy gyfrwng eu hiaith frodorol.[2]

Fodd bynnag, yn dilyn dyfodiad y Rhyfel Cartref, gwelwyd gwladgarwch cryf tuag at yr Unol Daleithiau yn ffynnu yn y cymunedau hyn. Ymunodd miloedd o Gymry a Chymry Americanaidd â byddin yr Undeb; o leiaf 3,000 ym marn Jerry Hunter, ond efallai ei fod rhwng 6,000 a 7,000 mewn gwirionedd.[3] Bu rhai'n gyfrifol am ffurfio cwmnïau Cymraeg penodol, megis Cwmnïau C ac E yng Nghatrawd y 56ain Ohio a Chwmni F yn y 133ain Pennsylvania. Yn ogystal, roedd Catrawdau'r 22ain a'r 23ain Wisconsin yn cynnwys cwmni a oedd yn llawn Cymry, a enwyd 'The Cambrian Guards'. Fodd bynnag, dim ond rhai cwmnïau unigryw fel y rhain a ffurfiwyd, gyda'r rhan helaeth o'r Cymry'n cael eu gwasgaru ledled y fyddin. Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o gatrawdau'r fyddin yn cynnwys cnewyllyn o 20 i 30 o Gymry, a oedd fel arfer yn dod o'r un gymuned. O ganlyniad i'w gwasanaeth milwrol dros eu gwlad fabwysiedig, daethant i ystyried eu hunain yn Americanwyr yn gyntaf ac yn Gymry yn ail.

Datblygodd y broses hon yn raddol dros y ganrif ddiwethaf o fewnfudo a chymhathu gyda chymunedau Americanaidd. Er enghraifft, wrth i filwyr Cymraeg o'r 16eg Wisconsin orymdeithio trwy Collierville, Tennessee, daethant ar draws hen frodor o Sir Gaerfyrddin o'r enw Davis, a fu'n byw fel ffermwr yn yr ardal am 50 mlynedd. Cawsant eu cyfarch gyda

---

[1] Jones, J. L. (1914), *An Artilleryman's Diary with the Sixth Wisconsin Battery During the Civil War,* Civil War Classic Library (Madison: Wisconsin History Commission), t. 1.

[2] Dyma'r patrwm gan amlaf yn y lleoeodd lled-wledig lle yr oedd digon o boblogaeth Gymraeg i'r Cymry allu osgoi cael eu llyncu'n gyflym gan y diwylliant Eingl-Americanaidd. Gweler, er enghraifft, Knowles, Anne Kelly (1997), *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants on Ohio's Industrial Frontier* (Chicago: University of Chicago Press); Walley, Cherilyn A. (2009), *The Welsh in Iowa* (Cardiff: University of Wales Press); Taylor, Clare (1983), 'Paddy's Run: A Welsh Community in Ohio', *Welsh History Review*, 11.3, 302–16.

[3] Hunter, J. (2003), *Llwch Cenhedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch), t. 40.

thafodiaith Wenglish: 'Can you siarad Cymraeg? Mae gennyf i lyfr in Cymraeg. I read that weithiau, ond nid yn often'.[4]

Mae astudio byddin yr Undeb yn hanfodol o ran ei chyfraniad at ein dealltwriaeth o'r broses o Americaneiddio hunaniaeth mewnfudwyr Cymraeg, oherwydd cafodd eu profiadau dyddiol yn y fyddin effaith ddwys ar ddatblygiad eu hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol. Cyn y rhyfel, bu llawer o'r Cymry'n byw mewn cymunedau gwledig ac ynysig, ond ar ôl iddynt ymrestru â'r fyddin, cawsant eu taflu i mewn i gymuned amlddiwylliannol ac amlieithog am y tro cyntaf, a bu'n rhaid iddynt ddysgu sut i addasu i fywyd mewn gwersyll milwrol. Gan fod y Cymry fel cenedl yn hynod o lythrennog, ysgrifennodd nifer o wirfoddolwyr at eu papurau newydd lleol yn America yn adrodd eu helyntion yn y fyddin. O ganlyniad, mae'r papurau hyn yn cynnwys cannoedd o lythyrau sy'n dangos sut wnaeth profiadau'r Cymry yn y fyddin effeithio ar eu hunaniaeth fel cenedl.[5] Llythyrau oddi wrth y mewnfudwyr yw'r ffynhonnell helaethaf, ac i raddau y ffynhonnell bwysicaf, sy'n cynnig mewnwelediad i feddylfryd, gweithgareddau ac agweddau'r Cymry.[6] Yn wir, mae'r papurau newydd hyn yn ffynonellau amhrisiadwy ar gyfer datblygu ein dealltwriaeth o'r effaith a gafodd y Rhyfel Cartref ar hunaniaeth y Cymry Americanaidd, oherwydd bu'r wasg yn gyfrifol am annog gwladgarwch a chenedlaetholdeb o blaid yr Undeb. Dangoswyd hyn yn glir gan Aled Jones a Bill Jones yn eu hastudiaeth o'r papur *Y Drych*. Gyda dyfodiad y rhyfel, daeth y papur yn ddylanwad pwysig dros genedlaetholdeb. Yn ogystal, gwthiodd am gefnogaeth i'r rhyfel trwy feirniadu niwtraliaeth nifer o arweinwyr Prydeinig a Chymreig.[7] Yn bwysicach na hyn, fodd bynnag, gwelai Aled Jones a Bill Jones *Y Drych* fel mwy na phapur newydd, ac yn hytrach fel offeryn a oedd yn gallu ffurfio a phennu hunaniaeth y Cymry Americanaidd.[8] O ganlyniad, mae *Y Drych* a phapurau newydd Cymraeg eraill nid yn unig yn profi bod y gymuned Gymraeg ei hiaith yn America wedi uno o dan faner cenedlaetholdeb a ffyddlondeb i'r Undeb, ond hefyd yn dangos sut yr adlewyrchwyd y safbwynt hwn gan wirfoddolwyr Cymreig ym myddin yr Undeb.

O ran strwythur, bydd yr erthygl hon yn dilyn dwy elfen o drafodaeth. Yn gyntaf, bydd yn ystyried pwysigrwydd crefydd i'r gwirfoddolwyr. Trodd yr hyn a ddechreuodd fel rhywbeth a roddai gysur cymdeithasol a diwylliannol yn gyflym i fod yn offeryn answyddogol o integreiddiad milwrol. Roedd y Cymry'n Gristnogion ffyddlon ac yn trefnu cyfarfodydd crefyddol rhyng-gatrawdol lle y gallai Cymry o gatrawdau gwahanol ymgynnull i drafod diwinyddiaeth, darllen y Beibl, a gwrando ar bregeth yn eu hiaith frodorol. Ond yn bwysicach fyth, roedd eu dymuniad am gynhaliaeth ysbrydol mor gryf fel y dechreuodd nifer ohonynt fynychu gwasanaethau crefyddol gyda'u cymrodyr Americanaidd, ac roeddent yn fodlon

[4] 'Llythyr Milwr Cymreig, Lake Providence, 9th February 1863' (1863), *Y Drych*, 14 Mawrth, 77.
[5] Y papurau newydd mwyaf sylweddol yw: *Y Cenhadwr Americanaidd, Y Seren Orllewinol, Y Cyfaill o'r Hen Wlad* ac *Y Drych*.
[6] Jones, Bill (2005), 'Writing Back: Welsh Emigrants and their Correspondence in the Nineteenth Century', *North American Journal of Welsh Studies*, 5, 26.
[7] Jones, Aled, a Jones, Bill (2001), *Welsh Reflections: Y Drych & America 1851–2001* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 20.
[8] Ibid., t. 55.

iawn gwrando ar bregethau trwy gyfrwng y Saesneg. Yn ail, trafodir hunaniaeth Gambro-Americanaidd a'i pherthynas â themtasiwn. Profodd argaeledd alcohol yng ngwersyllfa'r fyddin yn her ddifrifol i'r Cymry a fagwyd mewn cymunedau llym lle'r oedd diodydd fel cwrw, ac yn enwedig wisgi, yn wrthun i'w hunaniaeth ddiwylliannol draddodiadol. Ar y llaw arall, daeth nifer o'r Cymry o gymunedau dinesig lle'r oedd nifer ohonynt yn fragwyr eu hunain, a gwnaethant ymateb felly'n frwdfrydig i'r gweithgaredd milwrol o yfed. Yn wir, daeth yn elfen mor bwysig o fywyd yn y fyddin i'r fath raddau bod y ddefod o gynnig ac yfed alcohol yn hanfodol i'w hunaniaeth newydd fel milwyr.

Er gwaethaf yr hanesyddiaeth doreithiog am y Rhyfel Cartref, ceir rhai agweddau sy'n gofyn am ymchwil adfywiol a newydd, fel y dangosir yn yr erthygl hon. Oherwydd y diffyg Cymraeg yng nghymuned academaidd y Rhyfel Cartref yn yr Unol Daleithiau, mae'r llu o ddeunydd cynradd yn y wasg Gymraeg-Americanaidd yn anhysbys i'r mwyafrif o haneswyr, felly dim ond ychydig o ymchwil sydd i'w ganfod am Gymry'r fyddin a'u hymdrechion dros eu gwlad fabwysiedig. Felly, drwy ganolbwyntio ar y Cymry yn ein hastudiaeth, gallwn atgyfnerthu safbwyntiau haneswyr cyfoes yn ogystal â chyflwyno safbwyntiau newydd. Yn ei hymchwil sylweddol yn ystod y 1950au i'r mewnfudwyr a ymladdodd dros yr Undeb, dim ond un cwmni o Gymry y gwnaeth Ella Lonn ei ddarganfod, sef Cwmni E o'r 97ain Efrog Newydd.[9] Rydym bellach yn ymwybodol bod miloedd ohonynt mewn gwirionedd.

Yn ystod y 1950au, dechreuodd Alan Conway ymchwilio i'r gwirfoddolwyr Cymraeg, gan gyhoeddi llyfr ac erthygl ar y testun.[10] Er iddo gydnabod y cymathu cymdeithasol a ddigwyddodd i'r Cymry Americanaidd, canolbwyntiodd ar astudio cymhelliant milwyr Cymreig yn ystod y rhyfel, gan ddadlau'n bennaf bod y gwirfoddolwr Cymraeg cyffredinol yn tueddu i ddehongli'r rhyfel fel brwydr foesol a chrefyddol i ddiddymu caethwasiaeth.[11] Er hyn, ni ddadansoddodd yn sylweddol effaith eu gwasanaeth milwrol ar esblygiad eu hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol. Fodd bynnag, roedd Conway'n ddibynnol ar gyfieithydd a gallai ond defnyddio casgliad bach o ffynonellau o'r Llyfrgell Genedlaethol yng Nghymru. Yr athro Jerry Hunter yw'r arbenigwr mwyaf dylanwadol ar y Cymry yn y Rhyfel Cartref, ac mae wedi gosod sail i'r maes ymchwil drwy ddarganfod deunydd cynradd yn y wasg Gymraeg-Americanaidd. Yn ei lyfrau *Llwch Cenhedloedd* a *Sons of Arthur, Children of Lincoln,* dadleuodd fod y Cymry a ymunodd â'r fyddin yn gweld eu gwasanaeth milwrol fel ffordd ddiamwys o arddangos eu rhinweddau fel dinasyddion Americanaidd, ac nid fel mewnfudwyr.[12] Ehangodd yn sylweddol ar waith Conway trwy edrych ar gymhelliant y gwirfoddolwyr mewn mwy o fanylder. Sylwodd fod y rhan helaeth ohonynt wedi ymuno â'r fyddin oherwydd cymysgedd o wladgarwch, gwrthgaethwasiaeth, a chred gref yn eu dyletswydd fel dynion gwrol Americanaidd i amddiffyn eu teuluoedd a'u gwlad. Aeth Cymry

[9] Lonn, E. (1951), *Foreigners in the Union Army and Navy* (Baton Rouge: Louisiana State University Press), t. 139.

[10] Ei gyfrol yw *The Welsh in America: Letters From the Immigrants* (1961) (Minneapolis: University of Minnesota Press) a'i erthygl yw 'Welshmen in Union Armies' (1958), *Civil War Histoary*, 4, 143–74.

[11] Conway, A. (1958), 'Welshmen in Union Armies', *Civil War History*, 4, 173.

[12] Hunter, *Llwch Cenhedloedd*, t. 54.

America drwy'r broses o ddatblygu hunaniaeth ddwbl ymhell cyn dyfodiad y rhyfel, a honnodd Hunter fod eu rhan yn y rhyfel a'u profiadau ynddo wedi arwain at gyflymu eu cymathiad diwylliannol a chenedlaethol.

Ar wahân i waith Hunter, yr unig astudiaeth lawn o'r gwirfoddolwyr Cymraeg yw traethawd PhD Robert Huw Griffiths. Yn yr un modd, dangosodd sut y cyfunwyd hunaniaeth Gymraeg ac Americanaidd o ganlyniad i'r rhyfel, er iddo ganolbwyntio mwy ar berthynas y Cymry yng Nghymru â'r Cymry Americanaidd.[13] Yn nhrydedd bennod ei draethawd, honna Griffiths fod hunaniaeth ddwbl Gymraeg ac Americanaidd wedi'i chydblethu yn fwy cadarn o ganlyniadau i brofiadau Cymry America yn y Rhyfel Cartref ac, o ganlyniad, cynyddodd hynny'r broses o ymdoddi i'r gymdeithas Americanaidd. Er hyn, mae rhan fawr o'i waith yn canolbwyntio ar effaith y Rhyfel Cartref ar y Cymry yng Nghymru, a dirywiad y berthynas rhwng y Cymry yn America a'r Cymry yng Nghymru. Felly, mae'r erthygl hon yn cyflwyno mewnwelediad gwreiddiol i'r maes trwy ganolbwyntio ar elfen benodol o brofiad y Cymry ym myddin yr Undeb, ac effaith hynny ar eu hunaniaeth.

Wrth iddynt ymuno â'r fyddin, byddai'r gwirfoddolwyr o gymunedau bychain Cymry America yn wynebu ffordd o fyw a fyddai'n estron iddynt. Er enghraifft, yn Efrog Newydd, roedd y cymunedau Cymraeg mwyaf i'w cael yn Remsen a Steuben yn Sir Oneida, lle'r oedd hyd at 7,000 o Gymry wedi ymgartrefu.[14] Felly, roedd y profiad o addasu i fywyd mewn gwersyll gyda miloedd o bebyll a roddai loches i ddegau o filoedd o ddynion yn syndod mawr. Ar ben hynny, roeddent yn rhannu pabell â chwech neu saith o filwyr eraill, roedd gofyn iddynt gyfathrebu trwy gyfrwng y Saesneg, byddent yn cael eu deffro gan fiwgl, a byddai angen iddynt ddilyn rheolau gwisg llym ac ymarfer yn galed yn ddyddiol. Gwnaeth nifer ohonynt fwynhau'r profiad newydd, fel Joseph R. Davies, a ddisgrifiodd mewn llythyr at ei rieni fod dyletswyddau milwr yn hawdd. Byddent yn ymarfer am bedair awr y dydd, a oedd yn gadael gweddill y dydd yn rhydd iddynt goginio.[15] Disgrifiodd Evan Rowland Jones ei brofiadau yn yr un modd, gan bortreadu bywyd yng ngwersyll y fyddin fel un pleserus iawn. Roedd eu bwyd yn doreithiog, ac roedd yr ymarfer yn cael ei fwynhau'n fawr gan filwyr ei gatrawd, yn enwedig yn y gaeaf pan nad oedd modd ymladd.[16]

Er mwyn lleddfu eu teimladau o hiraeth, byddai nifer yn chwilio am ffrindiau neu deulu o wahanol daleithiau. Er enghraifft, ysgrifennodd un gwirfoddolwr at ei rieni yn Utica i ddweud bod yr 8fed Efrog Newydd yn y cyffiniau, ac y gallai gwrdd â'i gefnder, John.[17] Tra'r oedd mewn gwersyll yn Falmouth, daeth Richard W. Roberts ar draws ei ewythr Hugh Hughes

[13] Griffiths, R. H., 'The Welsh and the American Civil War c.1840-1865', traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2004. Hefyd, mae rhai ysgolheigion, megis Aled Jones a Bill Jones yn *Welsh Reflections*, wedi rhoi ystyriaeth i brofiadau'r milwyr Cymreig mewn astudiaethau mwy cyffredinol.

[14] Williams, J. G. (1993), *Memory Stones: A History of Welsh-Americans in Central New York and Their Churches* (New York: Purple Mountain Press), t. 27.

[15] 'Oddiwrth Filwr Gymreig at ei Rieni yn Utica' (1863), *Y Drych*, 28 Mawrth, 93.

[16] Jones, E. R. (1881), *Four Years in the Army of the Potomac: A Soldier's Recollections* (London: Tyne Publishing Company), t. 146.

[17] 'Oddiwrth Filwr Gymreig at ei Rieni yn Utica' (1863), *Y Drych,* 28 Mawrth, 93.

ym mhlith Marchfilwyr yr 84ain Efrog Newydd.[18] Yn Rappahannock Station, gwnaeth John J. Davies o blith Marchfilwyr yr 8fed Efrog Newydd gwrdd â'i gefnder Joseph yn ogystal â sawl ffrind o'i gartref a oedd wedi ymrestru gyda'r 146fed Efrog Newydd.[19] Byddai eraill yn crwydro'r gwersyll er mwyn darganfod faint o Gymry a oedd yn y cyffiniau, fel y dangosir gan lythyrau John G. Jones o'r 23ain Wisconsin. Yng Ngwersyll Randal, daeth ar draws 18 Cymro, yna pan oedd yn ymgyrchu gyda'i gatrawd yn Kentucky, darganfu 42 o Gymry yn yr 188fed Ohio, a nifer yn yr 22ain Wisconsin.[20] Blwyddyn yn ddiweddarach yng ngwersyll Millikons yn Louisiana, gwelodd Gymry yn yr 22ain Iowa, yr 25ain Iowa a'r 108fed Illinois.[21]

Mae'n bwysig cofio natur wasgaredig y Cymry, oherwydd bod eu hunaniaeth genedlaethol wedi'i Americaneiddio gan na ffurfiwyd catrawd gwbl Gymreig erioed. Oherwydd mai cnewyllyn bach o Gymry oedd yn y rhan fwyaf o gatrawdau'r fyddin, roeddent yn fwy tueddol o ffurfio hunaniaeth filwrol Americanaidd, gan rannu eu gwladgarwch â'u cyd-filwyr. Gwelir enghraifft arbennig mewn llythyr oddi wrth filwr Cymraeg yn yr 118fed Ohio a ymddangosodd yn *Y Drych*. Ysgrifennodd fod mwyafrif y milwyr yn ei gwmni, Cwmni F, yn Gymry ac Almaenwyr. Roedd y capten, Rudelph Ruel, yn Almaenwr a'r swyddogion yn Gymry: '1st Lieutenant William P. Davis and 2nd Lieutenant Thomas R. Owen'.[22] Ysgrifennodd ymhellach i ddweud bod y ddau Gymro wedi ennyn edmygedd ymysg y cwmni cyfan ac, i ddangos eu parch atynt, 'darfu i'r cwmni eu anrhegu a chleddyfau splendid'.[23] Yn ogystal â'r defnydd o air Saesneg fel rhan o'i eirfa, mae ei lythyr yn dangos sut yr oedd y fyddin yn gallu chwalu rhwystrau diwylliannol, gydag Almaenwyr a Chymry'r cwmni yn uno mewn defod filwrol Americanaidd. Fel mewn enghreifftiau pellach, gwnaeth Evan Rowland Jones a Jenkin Lloyd Jones ymladd dros eu gwlad heb gyd-Gymry yn eu catrawdau ac, o ganlyniad, nid yw dyddiaduron y ddau ohonynt yn cyfleu eu Cymreictod o gwbl. Ar Ddydd Gŵyl Dewi, yr oll sydd i'w weld yn nyddiadur Jenkin yw 'A dreary rainy day'.[24] Mae hunaniaeth Evan i'w gweld yn glir pan ysgrifennodd 'we of the North ... were summoned to the field to save the Republic'.[25]

Crefydd

Mae Anne Kelly Knowles wedi honni bod y Cymry Americanaidd yn gyffredinol wedi arddangos ffydd grefyddol eithriadol, gan fudo o Gymru gyda sefydliadau anghydffurfiol datblygedig iawn, ynghyd â hunanddisgyblaeth.[26] Mae William D. Jones wedi cyrraedd

[18] 'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig, Camp yn agos i Falmouth' (1863), *Y Drych,* 6 Mehefin, 173.
[19] 'Oddiwrth Filwr Cymreig yn Virginia at ei Frawd yn Utica' (1863), *Y Drych*, 22 Awst, 239.
[20] 'John G. Jones, Camp Randal, Madison, 31ain Awst 1862', Taylor, C. (gol.) (1972), *Wales and the American Civil War* (Aberystwyth: Llyfrgell Cenedlaethol Cymru), t. 1.
[21] Ibid., t. 23.
[22] 'Camp ger Cooper's Run' (1863), *Y Drych*, 4 Gorffennaf, 197.
[23] Ibid.
[24] Jones, *An Artilleryman's Diary,* t. 118.
[25] Ibid., t. 49.
[26] Knowles, A. K. (1997), 'Religious Identity as Ethnic Identity: The Welsh in Waukesha County', yn Ostergen, Robert C., a Vale, Thomas R. (goln), *Wisconsin Land and Life* (Madison: University of Wisconsin Press), t. 282.

casgliad tebyg yn ei ymchwil, gan ddehongli bod eu ffydd Gristnogol yn elfen hanfodol o'u Cymreictod, a bod crefydd wedi'i gydblethu'n llwyr â'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.[27]

Felly, i raddau, roedd chwilio am Gymry eraill yn y fyddin yn rhan o fod yn genedl wasgaredig. Yn wir, roedd eu cymunedau amrywiol yn gyfarwydd iawn â chael ymwelwyr o gymunedau Cymreig eraill, fel rhan o'u gweithgareddau diwylliannol. Cafodd eisteddfodau a chyfarfodydd crefyddol eu cynnal yn genedlaethol, lle gallai Cymry Americanaidd o wahanol daleithiau ymgynnull. Er enghraifft, yn nhalaith Efrog Newydd, roedd tref fach Collinsville yn cynnal cyfarfod pregethu cenedlaethol yn flynyddol, ac yn denu hyd at 30,000 o Gymry.[28] Dilynodd milwyr Cymraeg yr arfer hwn o drefnu cyfarfodydd crefyddol yng ngwersylloedd y fyddin.

Yn wir, mae digonedd o dystiolaeth a hanesyddiaeth eang sy'n dangos pa mor bwysig oedd eu ffydd Gristnogol i filwyr yr Undeb yn gyffredinol. Mae Mark A. Noll wedi cynnig arsylwad rhagorol ar yr argyfwng ysbrydol a grëwyd gan y rhyfel. Eglurodd Noll fod rhan fawr o boblogaeth y gogledd yn dehongli'r rhyfel trwy lygaid Cristnogol, gan gredu bod Duw ar ochr y Llywodraeth Weriniaethol.[29] Cynigiodd Noll felly fod llawer wedi ymuno â'r fyddin gyda'r ddealltwriaeth bod Duw ar eu hochr, gan droi'r rhyfel yn grwsâd. Dyma oedd safbwynt Benedict Maryniak hefyd, a ddadleuodd mai dim ond y Llywodraeth a'r Eglwys a allai'n gyfreithlon ofyn i ddynion y gogledd aberthu eu bywydau dros achos cyffredin.[30] Cefnogwyd y safbwynt hwn gan David Rolfs, a ddadleuodd yn gryf dros ddiffuantrwydd crefyddol milwyr yr Undeb. Yn ei farn ef, fel y gellir ei weld yn enghraifft y Cymry, er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd gan fywyd milwrol, nid oedd milwyr Cristnogol yr Undeb yn anwybyddu athrawiaethau'r Beibl; yn hytrach, addasai milwyr eu cred er mwyn gweddu i'r diwylliant poblogaidd o'u cwmpas.[31] Yng ngwersyll y fyddin, un o'r heriau mwyaf enbyd i filwyr Cristnogol oedd cynnal eu ffydd mewn amgylchedd pechadurus. Dyma yw barn Kent Dollar, a hawliodd bod bywyd milwrol yn ystod misoedd cyntaf y rhyfel yn anghroesawgar i ddynion Cristnogol.[32] Er bod adloniant pechadurus y wersyllfa yn ffyrnig, datblygodd nifer o filwyr ddibyniaeth ar eu ffydd wrth i'w perygl gynyddu. Amlygwyd hyn yn eu gweithgareddau hamdden, a oedd yn cynnwys gweddïo'n gyson a darllen eu Beiblau'n angerddol, ynghyd â mynd i wasanaethau crefyddol yn aml trwy gydol pedair blynedd y rhyfel.[33]

---

[27] Jones, W. D. (1993), *Wales in America: Scranton and the Welsh 1860–1920* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 91.

[28] Williams, *Memory Stones*, t. 187.

[29] Noll, M. A. (2006), *Civil War as a Theological Crisis* (Chapel Hill: The University of North Carolina Press), t. 73.

[30] Maryniak, B. (2003), 'Union Military Chaplains' yn Brinsfield, John W. et al. (goln), *Faith in the Fight: Civil War Chaplains* (Mechanicsburg: Stackpole Books), t. 3.

[31] Rolfs, D. W. (2007), 'No Nearer Heaven Now but Rather Farther Off: The Religious Compromises and Conflicts of Northern Soldiers' yn Sheehan-Dean, Aaron (gol.), *The View from the Ground: Experiences of Civil War Soldiers* (Lexington: University Press of Kentucky), t. 124.

[32] Dollar, K. T. (2007), 'Strangers in a Strange Land: Christian Soldiers in the Early Months of the Civil War' yn Sheehan-Dean, Aaron (gol.), *The View from the Ground: Experiences of Civil War Soldiers* (Lexington: University Press of Kentucky), t. 145.

[33] Ibid, t. 146.

Mae digonedd o dystiolaeth o'r rhyfel i gefnogi'r safbwynt hwn. Mae llythyr Owen Owens at ei gymdogion yn enghraifft nodweddiadol o'r cyfeirnodau crefyddol a ymddangosodd yn eu gohebiaeth. Mynnodd ef fod 'cadw'n sanctaidd y ddydd Sabboth yr hollalluog yn cynorthwyo ni fechgyn y Cymry', a faint o fraint ydoedd i gyfarfod i 'ddarllen yr ail ar bymtheg a'r 18th a'r 19th honno o Efengyl Ioan'.[34] Cyfaddefodd Thomas J. Owen, mewn llythyr at y parchedig John Williams, iddynt fod heb gynhaliaeth ysbrydol ers amser maith, gan fod caplan eu catrawd wedi bod yn absennol am fisoedd. Hyd yn oed pan oedd y caplan ar gael, byddent ond yn cael clywed pregeth ar y Saboth pan oedd y tywydd yn caniatáu. Fodd bynnag, clywed pregeth yn Gymraeg oedd ei chwant fwyaf, 'ac mae hiraeth mawr arnaf am gael eich gweled, eich clywed yn pregethu, a chael ymddyddau a chwi am wahanol bethau.'[35]

Mae'r hiraeth am bregeth yn cyfleu pa mor bwysig oedd crefydd fel cysur diwylliannol i'r gwirfoddolwyr. Roedd y ffydd Gristnogol yn agwedd hanfodol ar eu hunaniaeth Gymreig.[36] Yn ôl Howard Thomas, nid oedd gan unrhyw grŵp arall o fewnfudwyr safonau uwch o ran disgyblaeth ac ysbrydolrwydd. Roedd y mwyafrif yn Galfiniaid, a'r capel oedd canolbwynt eu bywyd cymdeithasol, i'r fath raddau bod cweryla rhwng aelodau'r gymuned yn cael ei ddyfarnu gan y capel yn hytrach na'r llys.[37] Dyma oedd barn William Van Vugt yn ei astudiaeth o ymfudwyr Prydeinig yn Ohio; fel Thomas, cytunodd fod crefydd yn elfen hanfodol o hunaniaeth y Cymry Americanaidd gan fod eu ffydd Galfinaidd yn gwneud iddynt ddehongli'r byd fel rhywbeth iddynt ei achub yn ôl cynlluniau Duw.[38] O ganlyniad, i'r Cymry, treiddiodd duwioldeb i bob agwedd ar fywyd ac addysg.[39] Felly, mae'n deg awgrymu bod ymroddiad y gwirfoddolwyr i'r efengyl nid yn unig yn dilyn eu magwraeth draddodiadol fel Calfiniaid ffyddlon, ond hefyd yn rhoi cysur iddynt mewn amgylchedd amlddiwylliannol lle'r oedd bygythiad i'w hunaniaeth grefyddol a diwylliannol.

Wrth ddadansoddi'r llythyrau hyn, mae'n rhaid ystyried bod elfen o or-ddweud ynddynt, oherwydd iddynt gael eu hysgrifennu gyda'r bwriad o gysuro cyfeillion a theulu a oedd yn poeni am eu heneidiau. Yn ogystal, roedd elfen o gysuro'r gweinidog lleol. Roedd nifer o'r gweinidogion Cymreig mor frwd dros achos y Gogledd fel eu bod yn pregethu mai dyletswydd y dynion ifainc oedd gwirfoddoli. Felly, roedd gwirfoddolwyr Cymreig yn ymwybodol bod eu gweinidogion yn disgwyl iddynt ddangos eu hymrwymiad yn eu llythyrau.

Gwelir elfen o hyn yn *Y Cyfaill* yn Ebrill 1863, lle y cyhoeddwyd llythyr gan Gymuned Eglwys Galfinaidd Racine at filwyr Cymraeg Cwmni F o'r 22ain Wisconsin. Gwnaethant egluro pa mor hapus oeddent o ddarllen hanes y cwmni yn y newyddion, yn enwedig o

[34] 'Owen Owens to Richard and Mary Jones', Taylor, C. (gol.) (1972), *Wales and the American Civil War*, (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru), t. 1.

[35] 'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig' (1863), *Y Cenhadwr Americanaidd*, Mehefin, 181.

[36] Gweler y penodau 'The Bards and the Bowie Knife' a 'Sons of Columbia, Sons of Arthur', yn Hunter, J. (2007), *Sons of Arthur, Children of Lincoln* am drafodaeth fanwl am berthynas yr Eglwys Gymreig-Americanaidd â hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol Cymry'r gogledd, a'i phwysigrwydd wrth annog dynion i ymrestru yn y fyddin.

[37] Thomas, H. (1949), 'The Welsh Came to Remsen', *New York History*, 30, 35.

[38] Van Vugt, W. E. (2006), *British Buckeyes: The English, Scots, and Welsh in Ohio,* 1700–1900 (Kent: Kent State University Press), t. 71.

[39] Ibid., t. 76.

glywed eu bod yn trefnu cyfarfodydd gweddïo ac ysgol Sul yn y rhengoedd.[40] Felly, rhaid cofio bod y gwirfoddolwyr hyn yn ymwybodol bod eu cymunedau yn dilyn eu helyntion yn y fyddin, ac roedd angen cysuro eu teuluoedd gyda straeon o'u hymroddiad i'w ffydd Gristnogol. Rhaid nodi bod cynnwys *Y Cenhadwr, Y Cyfaill, Y Drych* ac *Y Seren* yn naturiol â gogwydd Cristnogol, gan mai gweinidogion oedd y mwyafrif o olygyddion y wasg Gymraeg-Americanaidd, ac roeddent felly'n awyddus iawn i gyhoeddi deunydd a oedd yn adlewyrchu eu ffydd.

Fodd bynnag, nid oes gwir amheuaeth am eu ffydd. Mae'r ohebiaeth rhwng y Cymry a'r papurau newydd yn dangos yn glir bod y rhan helaeth ohonynt yn dilyn eu crefydd yn ffyddlon. Ysgrifennodd John Rowlands at *Y Drych* o'i wersyll ger Fredericksburg gan fynegi ei alar nad oedd yn gallu dathlu'r Sabath yn gywir:

> Y Sabboth yw heddyw. Yr ydych chwi yn cael rhyddid i fyned i le o addoliad cyhoeddus. Ond nid felly yma. Heddyw fel pob dydd arall gyda ni. O, fe fydd gorffwysdra yn hyfryd i'r milwr. Mor dda fuasai genyf fael myned i Dy Dduw ambell dro, eithr ofer yn disgwyl hyny – nid yw y wledd hono yn perthyn i'n bwrdd ni.[41]

Yn hytrach na chwyno am amodau bywyd fel milwr, ei brif bryder oedd methu â mynd i wasanaeth capel. Yn ogystal, ysgrifennodd mai ei wir gyfaill yn y gwersyll oedd y Testament Cymraeg, yr oedd yn ei ddarllen yn ddyddiol.[42] Felly, rydym yn dyst i ffynhonnell arbennig sy'n profi pa mor bwysig oedd cred Gristnogol i hunaniaeth Gymreig.

Ar y llaw arall, mae tystiolaeth bellach yn *Y Drych* sy'n dangos bod agwedd milwyr eraill at weld adeilad eglwys yn wahanol i agwedd John Rowlands, neu bod yr agwedd honno'n dueddol o newid yn sgil mwy o amlygiad at fywyd milwrol. Ysgrifennodd John H. Williams o Gwmni F, Catrawd yr 14eg Vermont at y papur er mwyn disgrifio ei gwmni yn darganfod hen eglwys wag wrth orymdeithio yn Virginia. Yn gyntaf, mynegodd ei bleser wrth weld yr adeilad, a'r ffaith iddo gael ei atgoffa o'i brofiadau llawen yn gwrando ar bregethau bob Nadolig yng Nghymru.[43] Ond, yn lle cynnal cyfarfod pregethu neu lenyddol, fel nifer o'i gymrodorion Cymraeg yn y fyddin, roedd Williams yn rhan o weithgaredd a oedd yn ymddangos fel pe bai'n fwy o sylwebaeth wleidyddol:

> Wel Syr, nid oedd yno gyfarfod pregethu na chyfarfod llenyddol, ond yr oedd genym ddau o fechgyn mwy doniol na chyffredin yn perthyn i'n cwmni; saith o'r gloch nos Fercher, aethant i fynu i'r Oriel a chawsant ddwy o areithiau hynod o dda a thrawiadol ganddynt; yr oedd eu sylwadau yn dal cysylltiad mwyaf neillduol a sefyllfa torcalonus ein gwlad.

[40] 'Llythyr at Filwr' (1863), *Y Cyfaill,* Ebrill, 122.
[41] 'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig' (1863), *Y Drych,* 10 Ionawr, 1.
[42] Ibid.
[43] 'Nadolig yn Centreville' (1863), *Y Drych*, 7 Chwefror, 34.

Yn y modd hwn, roedd Williams a'i gwmni yn dilyn model o wirfoddolwr a grëwyd gan Joseph Allan Frank. Dadleuodd Frank fod cymhellion gwleidyddol yn hollbwysig i filwyr yr Undeb, a bod llawer ohonynt yn dadlau prif faterion y rhyfel yn agored iawn, megis caethwasiaeth, arfogi milwyr duon, a'r agwedd tuag at dir y De a feddiannwyd cyn belled.[44] Yn ogystal, mae'r llythyr hwn yn bwysig o ran ystyried effaith y fyddin ar agwedd y Cymry at eu crefydd. Mae nifer o ffynonellau hyd yma wedi cyfleu duwioldeb cadarn, felly mae'r ffaith y bu Williams yn fodlon cyfleu i'w deulu a'i gymdogion ei fod yn osgoi cynnal cyfarfod gweddi fel y disgwylir gan y gymuned yn dangos sut yr addasodd Cymry Cristnogol i'w hamgylchedd yn y fyddin. Oherwydd iddo ysgrifennu'n benodol am 'fechgyn mwy doniol na chyffredin' yn ei gwmni, mae'n ymddangos mai adloniant difyr oedd fwyaf pwysig i'r milwyr blinedig hyn yn hytrach na'r cyfle i weddïo. Felly, er nad oes tystiolaeth i ddangos nad oedd crefydd yn bwysig iddo, mae'n dangos sut yr oedd bywyd milwrol yn dylanwadu ar flaenoriaethau gwirfoddolwyr dros amser.

Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd y rhan helaeth ohonynt yn anfodlon â'r modd na chawsent gynhaliaeth ysbrydol yn y fyddin, a cheisient ddatrys hynny'n gyson. Adroddodd Benjamin Chidlaw i *Y Cenhadwr* yn gynnar yn 1862 fod ymdrechion mawr i ffurfio grwpiau eglwysig yn y rhengoedd, er mwyn caniatáu i filwyr allu mwynhau'r gwasanaethau crefyddol yr oeddent yn hiraethu amdanynt.[45] Roedd crefydd yn ddull o uno aelodau amrywiol y fyddin, oherwydd nid Cymry yn unig a oedd yn cymryd rhan. Gwelir tystiolaeth o gydweithio o'r fath yn *Y Cyfaill.* Ysgrifennodd John W. Jones o'r 23ain Wisconsin o'i wersyll ger Memphis, Tennessee, er mwyn disgrifio ansawdd eu haddoliad. Am 2 o'r gloch ar y Sabath, caed pregeth i'r gatrawd, a fyddai'n cael ei dilyn gan gyfarfod gweddi am 6 o'r gloch.[46] Yn ogystal, bob dydd am 8 o'r gloch, roeddent yn cynnal dosbarth Beiblaidd a oedd yn agored i bawb.[47]

I raddau, roedd hyn yn adlewyrchu eu magwraeth gynnar. Mynnodd Ronald L. Lewis fod yr ysgol Sul yn ddyfais Gymreig ac yn hollbwysig i'w crefydd. Yn ogystal, roedd yn sefydliad pwysig a oedd yn datblygu llythrennedd y Cymry trwy gynnig addysg elfennol pan nad oedd ar gael yn gyffredinol.[48] Felly, nid yn unig yr oedd yr ysgol Sul yn eu dysgu i ddarllen, ond roedd hefyd yn eu galluogi i adrodd darnau hir o'r Beibl, a'i ddefnyddio i ddeall a dehongli'r byd.[49]

Wrth ystyried hyn, mae'n synhwyrol meddwl bod datganiadau crefyddol milwyr Cymraeg eu hiaith i'r papurau newydd yn adlewyrchu eu haddysg ysbrydol. Ar y llaw arall, mae'n rhaid hefyd ystyried rôl y papur newydd wrth ddewis a dethol pa lythyrau i'w cyhoeddi. Er bod digon o dystiolaeth i gefnogi duwioldeb y Cymry, roedd elfen o'r ffynonellau'n adlewyrchu cred a phwrpas y golygydd. Nododd Rhiannon Heledd Williams hyn yn ei

[44] Frank, J. A. (1998), *With Ballot and Bayonet: The Political Socialization of American Civil War Soldiers* (Athens: The University of Georgia Press), t. 2.
[45] 'Y Frawdoliaeth Gristionogol yn y Fyddin' (1862), *Y Cenhadwr*, Mawrth, 114.
[46] 'Llythyr o Faes y Gwaed' (1863), *Y Cyfaill,* Ionawr, 27.
[47] Ibid.
[48] Lewis, R. L. (2008), *Welsh Americans: A History of Assimilation in the Coalfields* (Chapel Hill: The University of North Carolina Press), t.143.
[49] Ibid, t. 143.

hastudiaeth o *Y Cyfaill*. Yn wahanol i *Y Cenhadwr*, *Y Seren* ac *Y Drych*, roedd golygydd *Y Cyfaill,* William Rowlands, yn fwy niwtral ac yn gwrthod dangos ffafriaeth i'r blaid wleidyddol, sef safbwynt a oedd yn diflannu yn y cynnwrf a dreiddiai drwy gymunedau Cymreig yr Unol Daleithiau.[50] Roedd unrhyw gefnogaeth i'r Democratiaid yn cael ei dehongli fel gwrthwynebiad i'r rhyfel, ac felly'n frad. Cyhuddwyd golygydd *Y Cyfaill* nid yn unig o beidio â gweithredu'n ddigonol yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth, ond hefyd o ochri â'r Democratiaid.[51] O ganlyniad, mae nifer o'r llythyrau a gyhoeddwyd yn *Y Cyfaill* yn dangos themâu o ffyddlondeb crefyddol, ond nid mewn dull mor agored ag a gafwyd yn *Y Cenhadwr* neu *Y Drych* yn eu datganiadau o wladgarwch Americanaidd. Gan ystyried hyn, nid dilysrwydd ffydd Gristnogol y Cymry sy'n cynnig mewnwelediad pwysig. Yn hytrach, yr hyn a welir yn eu gohebiaeth yw pwysigrwydd crefydd fel gweithgaredd cymdeithasol.

Yr hyn sydd hefyd yn arwyddocaol yw sut y newidiwyd gwasanaethau crefyddol hollol Gymreig o'r fath i gynnwys milwyr Americanaidd, a sut yr esblygodd yn y pen draw i droi'n asiant o Americaneiddio. Fel y nodwyd gan lythyr John W. Jones uchod, defnyddiwyd eu crefydd fel gweithgaredd cymdeithasol i'r gatrawd gyfan, ac nid i'r Cymry yn unig. Cafodd rhywbeth tebyg ei ddisgrifio gan William G. Jones, a oedd yn ysgrifennu i *Y Cyfaill* o'i wersyll ger Fayetteville, Virginia: 'Y mae yma gyfarfod gweddi bob boreu Sabboth am 6, Ysgol am 2 a phregeth yn yr hwyr. Hefyd, Society bob nos Fercher dan lywyddiaeth Caplan Allen, o'r 12th Ohio'.[52] Unwaith eto, gwelir tystiolaeth mai prif bryder y gwirfoddolwyr Cymraeg oedd diffyg mynediad at eu crefydd, a'r ymdrech i ddatrys hyn. Mewn perthynas â hyn, trwy gynnal cyfarfodydd crefyddol gyda milwyr di-Gymraeg, roeddent yn defnyddio eu ffydd fel gweithgaredd cymdeithasol i uno fel milwyr ym myddin Duw, lle'r oedd ffydd Gristnogol pob aelod o'r cyfarfod gweddi yn fwy pwysig na'u Cymreictod. Caiff hyn ei gyfleu'n glir gan awydd Jones i fynd i wrando ar y bregeth bob nos Fercher dan arweinyddiaeth Caplan Allen, gweinidog di-Gymraeg. Nid iaith yr efengyl oedd yn bwysig iddo, ond yn hytrach y cyfle i ymuno mewn gweithgaredd crefyddol gyda'i gymrodorion.

Yn fwy pwysig, fodd bynnag, rhannodd yr awydd hwn â gweddill y fyddin. Felly, roedd gweddïo a thrafod yr efengyl gyda milwyr di-Gymraeg yn ddull effeithiol o oresgyn rhwystrau diwylliannol, gan gyfrannu yn y pen draw at Americaneiddio milwrol. Yn yr un modd, cyfrannodd canu emynau Saesneg yn fawr at Americaneiddio hunaniaeth ddiwylliannol y milwyr Cymraeg. Mewn llythyr a ymddangosodd yn *Y Gwladgarwr*, gwnaeth milwr gloi ei gyfraniad â phennill o'r gân *The Union for Ever*: 'The flag our fathers died nobly to save shall never go down over Liberty's grave'.[53] Fel gweddïo, mae'r enghraifft hon yn dangos sut y treiddiai datganiadau gwladgarol Americanaidd i'w hymadroddion diwylliannol Cymraeg, gan adlewyrchu pwysigrwydd y fyddin wrth iddi ddylanwadu ar esblygiad hunaniaeth

[50] Williams, R. H. (2017), *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad? Gwasg Gyfnodol Gymraeg America* 1838–1866 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 142.
[51] Ibid.
[52] 'Llythyr o Faes y Gwaed' (1864), *Y Cyfaill,* Ebrill, 124.
[53] 'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig, o America' (1862), *Y Gwladgarwr,* 11 Ionawr, 3.

filwrol. Roedd canu emynau, caneuon a gweddïo, felly, yn ddull o ymwneud a chymdeithasu â'u cymrodyr di-Gymraeg.

Adlewyrchwyd hyn gan lythyr Thomas J. Davies o Gwmni F yr 22ain Wisconsin at ei ewythr. Nododd ef â phleser fod dwy ran o dair o'r cwmni, ynghyd â'r mwyafrif o'r swyddogion, yn gymrodyr Cymraeg, ond yn fwy pwysig iddo ef oedd eu ffydd ddiffuant.

> A'r peth mwyaf o bwys ydyw, fod yna amryw o grefyddwyr selog ... nid ydynt wedi anghofio galw ar enw y Duw byw. Y mae ein hamgylchiadau yma yn rhwystro i gryn raddau gyrraedd rheolaidd o foddion gras; eto yr ydym yn cael aml gyfarfod melus gyda ein gilydd yn y fangre bellenig hon. Er pan ddaeth y 31ain Wisconsin yma yr ydym wedi gadw cyfarfodydd gweddi yn lled gyson, ar ddydd Sul ag unwaith yn oed yr wythnos.[54]

O'i lythyr, ymddangosai bod y Cymry yn gwneud ymdrechion i sicrhau cyflenwad o lenyddiaeth ddiwinyddol ac i greu cyfleoedd cymdeithasol crefyddol, ond nid i'r Cymry yn unig. Er bod Cwmni F yn llawn Cymry, lleiafrif oeddent yng ngweddill y gatrawd. Felly, mae'n ymddangos mai pwrpas y cyfarfodydd crefyddol oedd uno â'u cymrodyr mewn brawdgarwch Cristnogol, gan esblygu hunaniaeth Gambro-Americanaidd y dylanwadwyd arni gan addoli mewn amgylchedd milwrol. Gwelir elfen o hyn ym mhrofiad Edward Owen o fywyd mewn gwersyll ger Memphis, Tennessee gyda'r 23ain Wisconsin. Ar ôl gweld angladd milwr o'r 20fed Wisconsin, ysgrifennodd i gyfleu ei bleser ynghylch y newyddion fod gweinidog wedi ymuno â chatrawd gyfagos:

> Wel may yma bregethwr yn Clongiad's Regiment ac yr ydym yn cael bregeth bob Sul ac maent wedi gwneud cymdeithas canu ac mae Edward wedi rhoi ei enw iddynt ac rwyf finau yn meddwl am wneud os byddant yn dyfod yn mlaen. Ac mae'r bregethwr am wneud i'r Cymru alltud (exiles) a Saeson ganu ar ben ei hunain yn bregeth Dydd Sul ac yr ydwn yn falch.[55]

Mae'r ffynhonnell hon yn dangos mai prif awydd Edward oedd y cyfle i wrando ar bregeth gan weinidog. Yn wir, roedd y teimlad hwn mor gryf, roedd ef a'i gymrodyr Cymraeg yn fodlon gwrando ar yr efengyl trwy gyfrwng y Saesneg os oedd cyfle'n codi i glywed pregethwr swyddogol yn ei hadrodd. Profodd crefydd yn elfen hynod bwysig yn natblygiad hunaniaeth Americanaidd Edwards, oherwydd gwelwyd y traddodiadau Cymraeg y magwyd Edwards ynddynt yn addasu i'w amgylchedd milwrol. Atgyfnerthir hyn gan ei ddefnydd o'r gair 'alltud' i ddisgrifio'r Cymry, gan awgrymu eu bod wedi mabwysiadu'r Unol Daleithiau fel eu cartref. Caiff enghraifft debyg ei dangos gan lythyr R.C. Roberts at ei rieni o'i wersyll

[54] 'Llythyr oddiwrth Filwr' (1864), *Y Cyfaill,* Mehefin, 183.
[55] 'Civil War Letters, 1862–1863 – Edward Owen', *Wisconsin Historical Society Archives*, MAD 4/14/File 1862, Chwefror 5.

ger Warrenton, Virginia, sy'n disgrifio ei hapusrwydd pan ddychwelodd caplan ei gatrawd ar ôl absenoldeb o bedwar mis:

> Dychwelodd ein capelydd, sef Dr Bristol, ar ol bod yn absennol am bedwar mis. Pregethodd y Sabbath diweddaf, ac er fod y cyflegrau yn rhuo yn y pellder, eto yr oedd yn felys iawn genyf gael gwrando ar yr efengyl am unwaith, er mewn iaith estronol.[56]

Roedd Roberts mor awyddus i glywed pregeth ddilys gan weinidog, nid oedd ots ganddo mai trwy gyfrwng y Saesneg ydoedd, nac ychwaith bod geiriau'r efengyl yn cael eu hatalnodi gan sŵn arfau yn y cefndir, sy'n enghraifft effeithiol o sut yr addasodd gweithgareddau crefyddol yn ymarferol i amgylchedd bywyd milwr. Yn ogystal, mae'n dangos pa mor bwysig oedd presenoldeb gweinidog i filwyr Cristnogol, nid yn unig oherwydd eu hawdurdod crefyddol ond hefyd oherwydd eu rôl fugeiliol. Byddai gweinidogion fel Dr Bristol yn gyfrifol am roi llenyddiaeth grefyddol i'r milwyr a chynnal cyfarfodydd gweddïo, ond, yn ogystal, roeddent yn gyfrifol am les corfforol a meddyliol eu praidd.[57] Gwelir hyn yn llythyr Roberts, gyda'r caplan yn barod i ymdopi ag anawsterau rheng flaen y rhyfel er mwyn darparu cefnogaeth ysbrydol. Yn y modd hwn, wrth i'r rhyfel barhau, nid oedd Cymreictod y gweinidog mor bwysig bellach i filwyr Cymraeg, gan fod mwy o bregethwyr Americanaidd ar gael. Canlyniad hyn, felly, oedd iddo gyfrannu at esblygiad yr hunaniaeth ddiwylliannol Gymraeg-Americanaidd, a oedd fwyaf amlwg yn yr iaith a ddefnyddiwyd ganddynt. Sylwodd Anne Kelly Knowles ar hyn yn digwydd yn y degawdau a ddilynodd y rhyfel. Parhaodd y capel Calfinaidd yn Ohio i ddylanwadu ar y gymuned, ond, yn dilyn y rhyfel, Saesneg yn hytrach na Chymraeg oedd iaith rhan helaeth o'r gwasanaethau. Cynyddodd y gofyn am wasanaethau Saesneg tan iddynt ddechrau cael eu cynnal yn gyson ar ôl 1901, a chynhaliwyd y bregeth olaf trwy gyfrwng y Gymraeg yn 1918.[58] Dyma dystiolaeth gadarn i ddangos y broses o Americaneiddio a oedd yn digwydd i'r gymuned Gymraeg, gan gefnogi sut y cyflymwyd y broses hon gan y Rhyfel Cartref.

Mae cyfoeth yr ohebiaeth Gymraeg yn ddefnyddiol iawn, ond hefyd yn wendid, oherwydd prin ydym yn derbyn safbwynt cyferbyniol i'r consensws cymdeithasol a oedd yn cael ei gyflwyno gan y wasg. Mae'r ffynonnellau a ddefnyddiwyd cyn belled yn ddilys, ond maent hefyd yn adlewyrchu pwysau moesol a chymdeithasol i gyfleu ffydd gref. Gwelir hyn yn glir trwy ddychwelyd at gasgliad o lythyrau Edward Owen. Ysgrifennodd W. T. Parry at Edward o Portage, Wisconsin, i'w hysbysu am farwolaeth ei frawd-yng-nghyfraith, Richard Williams, a ymrestrodd â'r 22ain Wisconsin. Cysurodd Edward gyda'r canlynol:

---

[56] 'Llythyr Milwr Cymreig at ei Rieni' (1862), *Baner ac Amserau Cymru*, 24 Rhagfyr, 823.

[57] Wiley, B. I. (1953), '"Holy Joes" of the Sixties: A Study of Civil War Chaplains', *Huntington Library Quarterly*, 16, 297.

[58] Knowles, A. K. (1997), *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants on Ohio's Industrial Frontier* (Chicago: University of Chicago Press), t. 221.

> Ac sydd bwysig i chwi a minau ydyw bod eich ymrestru yn gywir ym myddin Tywysog y bywyd tragwyddol ... fyddai marw yna a choron gogoniant fyddai y wobr. Yr wyf yn hyderus eich bod yn mwynhau cysuron crefydd hyd yn oed yn eich sefyllfa anfanteisiol. Hwyr yr Iesu yn brofiadol pa beth yw bod yn filwr. Gall ef eich cysuro yn eich holl drallodion a chydymdeimlo yn eich holl ddioddefiadau. Ymunwch lawer ag ef o hyn y daw i chwi ddaioni. Yma feddyliaf y mae cuddiad cryfder y Gristion.[59]

Mae'n ymddangos bod Parry yn ceisio cysuro Edward yn bennaf trwy bwysleisio ei fod yn aelod o fyddin Gristnogol ac yn ymladd gyda Duw ar ei ochr, ac y byddai hynny'n sicrhau ei iachawdwriaeth. Ond yn ogystal, mae'r ffynhonnell hon yn cyfleu'r ffaith nad oedd modd i nifer o Gymry gyfleu unrhyw gwyn am eu hamodau, oherwydd bod y gymuned, yn enwedig eu gweinidogion lleol, yn disgwyl ymddygiad penodol ganddynt. Mae llythyr arall gan Edward at ei rieni yn cyfleu arwyddion o flinder ac awydd i ddychwelyd adref, ynghyd â'r datganiadau arferol o dduwioldeb a ffyddlondeb i'r Undeb. Galarodd Edward ynghylch pa mor dywyll yr oedd pethau yn ymddangos, ac roedd yn gweld eisiau cysur ei gartref, a byddai'n aberthu unrhyw beth i allu dychwelyd.[60] Ond, dilynodd hyn gyda datganiad o'i ffydd yn ei Dduw: 'Ond y mae yr hwn a orchymynodd i'r goleini ddisgleirio o dywyllwch yw'r un yn awr a phan yn creu y byd'.[61] Er iddo ddechrau trwy gwyno am ei sefyllfa, cofiodd atgyfnerthu ei ymrwymiad i'r Undeb trwy ei ffydd. Mae hyn yn ddiddorol iawn, oherwydd mae'n dangos pa mor ofalus yr oedd angen iddo fod wrth drafod ei anhapusrwydd hyd yn oed gyda'i rieni, i'r fath raddau bod angen iddo gynnwys datganiad i atgyfnerthu ei ganfyddiad fel Cristion a milwr ffyddlon. Mae hyn nid yn unig yn cynnig mewnwelediad i sut y newidiodd milwyr Cymreig dros amser a'r dulliau cyfyngedig o fynegi safbwyntiau gwahanol, ond mae hefyd yn arddangos faint o bwysau cymdeithasol a theuluol a oedd ar y milwyr i gynnwys datganiadau crefyddol yn eu gohebiaeth, sy'n amlygu'r heriau o ran dadansoddi crefydd y gwirfoddolwyr.

Alcohol

Roedd Americaneiddio trwy grefydd yn eithaf hawdd i'w dderbyn, ond roedd gweithgareddau hamdden bywyd mewn gwersyll milwrol yn fwy heriol i nifer o Gymry. Yn fwy nag unrhyw beth, diflastod oedd prif her pob milwr, oherwydd byddai'n arwain at yfed a gamblo. Ar ôl cyflawni eu dyletswyddau, roedd y gwirfoddolwyr yn rhydd am weddill y diwrnod. Roedd rhai'n hapus iawn â hyn, fel John H. Williams o'r 14eg Vermont, a ysgrifennodd ei fod yn

[59] 'Letter to Edward Owen from W. T. Parry, Jan 10th 1863', 'Civil War Letters, 1862-1863 – Edward Owen', Wisconsin Historical Society Archives, MAD 4/14/File 1862 Chwefror 5.
[60] 'Letter from Edward Owen to his dear and gentle family back home, March 20th 1863', 'Civil War Letters, 1862–1863 – Edward Owen', Wisconsin Historical Society Archives, MAD 4/14/File 1862 Chwefror 5.
[61] Ibid.

berffaith fodlon cael dim byd i'w wneud yn y gwersyll.[62] Ond roedd y diflastod hwn yn annioddefol i eraill. Cwynodd Jenkin Lloyd Jones yn ei ddyddiadur nad oedd dim byd ar gael i dorri ar undonedd bywyd y gwersyll.[63] Roedd Robert Davis o Gwmni F, Catrawd y 25ain Iowa yn cytuno'n llwyr, gan ysgrifennu at ei rieni: 'Well yr wyf yn meddwl llawer am y *boys*. Y maent yn cael yr amser caletaf a welsont erioed, does gwneud dim tan ar *picket*. Mi fyse yn well gennyf efo *artillery*, nid oes cymaint o sefyll *guard*'.[64]

Daeth alcohol yn ateb cyffredin i ddiflastod nifer o wirfoddolwyr. Wisgi oedd fwyaf poblogaidd gan ei fod ar gael ledled y wlad gyfan. Felly, i ble bynnag y teithiai'r fyddin, byddai hynny'n mynd law yn llaw â phresenoldeb amlwg wisgi, a llwyddodd nifer o filwyr i ddod â chyflenwad anghyfreithlon i'r gwersyll. Felly, nid oedd modd dianc rhag alcohol yn gyfan gwbl yn y fyddin. Yr oedd hyn yn bryder i'w teuluoedd, ac ysgrifennodd eu teuluoedd atynt i'w hatgoffa am eu dyletswydd Gristnogol. Cyhoeddwyd llythyr o'r fath yn *Y Cenhadwr*, oddi wrth chwaer at ei brawd yn y fyddin: 'paid a chwareu cardiau, paid a rhegi, paid ag yfed diodydd meddwol, ac uwchlaw, ac uwchlaw popeth, paid ag anghofio dy Dduw.'[65] Ysgrifennodd unigolyn arall at *Y Seren,* yn hawlio bod milwr ger Portland wedi marw dan effaith y ddiod.[66]

Canfyddiad cyffredinol haneswyr yw bod milwyr wedi ymuno'n frwdfrydig â'r diwylliant o yfed. Un o'r haneswyr cyntaf i ganfod hyn oedd Fred A. Shannon, a ddadleuodd bod bywyd mewn gwersyll milwrol yn ddiflas ac yn gyrru milwyr i yfed i ddatrys y broblem hon.[67] Yr hanesydd mwyaf dylanwadol ar y pwnc yw Bell Irvin Wiley, a oedd yn gweld gwersylloedd yr Undeb fel mannau a oedd yn llawn drygioni, yn sgil rhyddid newydd y gwirfoddolwyr ifanc a'r chwant i arbrofi.[68] Wisgi oedd y ddiod arferol, ond yn aml roedd o ansawdd ffiaidd ac yn gymysgedd o 'bark juice, tar water, turpentine, brown sugar, lamp oil and alcohol'.[69]

Mae'r safbwynt hwn yn parhau'n ddylanwadol hyd heddiw. Yn ei arsylwadau ynghylch yr amddiffynfeydd a oedd yn amgylchynu Washington, sylweddolodd Blake Lindsey fod alcohol yn broblem endemig. Bron yn ddyddiol, cafodd milwyr eu harestio am feddwdod, yn enwedig yn y gaeaf.[70] Gwelodd William Miller yn ei ymchwil ar Wersyll Curtin fod gwirfoddolwyr newydd yn dianc yn gyson i fanteisio ar demtasiynau cyfagos trefi'r ardal. Hawliodd Miller

---

[62] 'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig' (1863), *Y Drych*, 16 Mai, 146.
[63] Jones, *An Artilleryman's Diary*, t. 10.
[64] 'Letter by Robert Davis, 25th Regiment, Company F', Des Moines Historical Library Manuscripts, N14/3/5 Bocs 8, Ffolder 10.
[65] 'Chwaer y Milwr' (1862), *Y Cenhadwr*, Hydref, 388.
[66] 'Rhybudd i Feddwon' (1864), *Y Seren,* Mawrth, 69.
[67] Shannon, F. A. (1927), 'The Life of the Common Soldier in the Union Army, 1861-1865', *The Mississippi Valley Historical Review*, 13, 480.
[68] Wiley, B. I. (1971), *The Life of Billy Yank: The Common Soldier of the Union* (New York: Louisiana University State Press), t. 248.
[69] Ibid., t. 253.
[70] Lindsey, B. (2017), 'Alcohol, Conflict and Identity in the Civil War Defences of Washington, April 1861–March 1863', *The Midwest Quarterly*, 58, 153.

fod dynion ifanc o gartrefi da yn rhannu pebyll â dynion a oedd yn yfwyr a gamblwyr profiadol, ac ymunent â hwy'n frwdfrydig yn y gweithgareddau hyn.[71]

Mae James Robertson Jr wedi cyflawni arsylwad arbennig ar fywyd milwrol yn ei lyfr *Soldiers Blue and Gray,* sy'n rhoi safbwynt mwy cytbwys. Fel y dadleuwyd eisoes, nodwyd gan Robertson mai gwersyll y fyddin oedd y man lle y byddai'r gwirfoddolwyr yn dysgu sut i fod yn filwyr.[72] Cyfaddefodd fod alcohol a gamblo mor gyffredin â rhegi, ond roedd y rhan helaeth o'r milwyr yn ddynion rhinweddol, a ymatebodd i'w profiad yn y fyddin mewn ffyrdd gwahanol.[73] O ran y Cymry yn benodol, sylweddolodd Jerry Hunter fod eu hymateb i alcohol yn gymhleth, ac ni ddylid trin dynion crefyddol a'r llymeitwyr fel dau grŵp ar wahân, gan fod rhai milwyr Cymreig yn mwynhau diodydd cadarn a chyfarfodydd crefyddol fel ei gilydd.[74] Er y daeth rhai yn hoff iawn o gwrw a wisgi, ar yr un pryd byddent yn darllen eu Beiblau'n ffyddlon.[75]

Mae'r Cymry a oedd yn byw mewn trefi neu ddinasoedd yn cyfleu'r ddelwedd gymhleth hon yn glir. Ar yr un llaw, roeddent yn ymfalchïo yn eu ffydd a'u llythrennedd crefyddol. Mae William Jones wedi dangos hyn yn ei astudiaeth o'r Cymry yn Scranton, Pennsylvania, gan gyfeirio at y ddinas fel yr Athens Gymreig yn America.[76] Roedd capeli ac eglwysi Cymraeg y ddinas yn darparu llawer mwy na moddion gras bob dydd Sul; roeddent yn gymunedau yn eu hunain ac yn dylanwadu ar y gymuned gyda'u presenoldeb a'u gweithgareddau.[77]

Ond, i nifer o Gymry Scranton, roedd y ffydd Gristnogol ac yfed alcohol yn elfennau hafal o'u diwylliant. Gwelir mwy o hyn yng ngwaith Ronald Lewis yn ei astudiaeth o'r Cymry yng nghymunedau diwydiannol Pennsylvania. Mae'n nodi bod yfed yn weithgaredd cyffredin mewn cymunedau glofaol Cymreig, a bod yr eglwys yn brwydro yn erbyn y dafarn am deyrngarwch y glowyr, gan nad oedd y glowyr yn gweld gwahaniaeth rhwng yfed alcohol a bod yn Gristnogion ffyddlon.[78] Felly mae'n rhaid ystyried bod gwahanol safbwyntiau ar alcohol gan ddibynnu ar fagwraeth ddinesig neu wledig, a bod y cysylltiad rhwng hunaniaeth Gymreig a hunaniaeth Americanaidd yn wahanol yn achos milwr o fferm yn Wisconsin o gymharu â milwr o Scranton neu Philadelphia yn Pennsylvania.

Roedd nifer o wirfoddolwyr Cymreig yn casáu'r elfen hon o fywyd milwrol, ac yn defnyddio'r gair 'meddwyn' fel sarhad. Yn dilyn nifer o golledion mewn brwydr ar y ffordd i Memphis, cyhuddodd W. E. Williams y Cadfridog Sturgiss o fod ar fai, ac fe'i disgrifiodd fel 'Y Cad. meddw yr hen Sturgiss'.[79] Disgrifiodd John E. Roberts o Farchfilwyr y 5ed Pennsylvania fod arfau'r gelyn yn rhy warthus i'w disgrifio, sef 'meddwdod, anlladrwydd,

[71] Miller, W. J. (1990), *The Training of an Army: Camp Curtin and the North's Civil War* (Shippensburg: White Mane Publishing Company), t. 75.
[72] Robertson Jr, J. I. (1998), *Soldiers Blue and Gray* (Columbia: University of South Carolina Press), t. 41.
[73] Ibid, t. 101.
[74] Hunter, *Llwch Cenhedloedd*, t. 142.
[75] Ibid.
[76] Jones, *Wales in America*, t. 88.
[77] Ibid., t. 93.
[78] Lewis, *Welsh Americans,* t. 147.
[79] 'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig yn y De Orllewin' (1864), *Y Gwladgarwr*, 20 Awst, t. 3.

lladrad, twyll ac eilun addoli'.[80] I lawer ohonynt, roedd meddwi yn erbyn eu hegwyddorion. Ysgrifennodd milwr o'r 39ain Ohio at *Y Cenhadwr* i gysuro ei deulu a'i gymdogion mai 'i lawr a'r fasnach feddwol yw arwyddair yr wrol 39ain, ac y mae ein swyddwyr o un meddwl am ddarostwng cynhyrfydd i'r fath anfoesgarwch'.[81] Cafodd yr agwedd hon ei hatgyfnerthu gan boblogrwydd y mudiad dirwest. Ysgrifennodd R. R. Davies o Wersyll Tenley at ei ffrind yn sôn am y ddisgyblaeth lem a roddwyd i Fyddin y Potomac gan y Cadfridog McClellan. Roedd Davies wrth ei fodd fod McClellan ac ef yn gyd feibion dirwest, a bod McClellan wedi atal y cyflenwad alcohol i'r gwersyll.[82] I raddau, roedd hyn yn adlewyrchu ei fagwraeth, neu o leiaf yn plesio'r dirwestwyr yn ei gymuned leol a oedd yn darllen ei lythyr yn *Y Cyfaill.* Roedd hyn yn apelio at aelodau Americanaidd y gymuned, ac nid y Cymry yn unig. Er enghraifft, ceir tystiolaeth o gyfarfod dirwest yn y papur newydd *Ebensburg Alleghanian,* o Ebensburg, Pennsylvania:

> The Ebensburg Temperance Association held its annual anniversary on New Year's day, in the Welsh Congregational Church. The first meeting was held at two o'clock ... After which Rev. T. Davis of Pittsburg, and Rev. J. Williams, addressed the meeting in Welsh, and Rev. D. Harbison in English.[83]

Mae'r ffaith bod y gymdeithas yn fudiad Americanaidd, ond ei bod wedi cyfarfod yn yr eglwys Gymraeg ac wedi cynnal trafodaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn dangos sut y gallai'r gwrthwynebiad i alcohol uno gwahanol aelodau o gymuned gymysg. I nifer ohonynt, felly, nid oedd alcohol yn perthyn i'w hunaniaeth Gymreig, oherwydd bod aelodaeth o'r mudiad dirwest yn nodweddiadol o hunaniaeth Americanaidd hefyd.

Mae dyddiadur Jenkin Lloyd Jones yn cynnig un o'r ffynonellau gorau am fywyd y milwr, ac mae ei farn ar alcohol yn dangos y gwrthdaro rhwng elfennau Cymreig ac Americanaidd ei hunaniaeth. Mae'n sôn am un digwyddiad a ddisgrifiodd fel 'ludicrous and deplorable'.[84] Yn ystod un noson ger Buntyn Station, clywodd gerddoriaeth yn dod o babell y 4ydd platŵn. Nid oedd yn hir tan i'r *quartermaster* ddod â photeli o wisgi i'r gwersyll, a thorrwyd ar y gerddoriaeth gan 'drunken row.'[85] Ysgrifennodd yn hwyrach: 'it was just five months ago today, and am I really so much changed? Can it be that I am so much more vicious and wicked than then, that I heed not the Sabbath?'[86] Gellir deall hyn fel galar gwirioneddol ynghylch ei amgylchedd pechadurus ac mae'n hiraethu am ei fagwraeth Gristnogol, ynghyd â dangos sut y newidiodd agweddau crefyddol y Cymry at wirioneddau bywyd y gwersyll.

---

[80] 'Llythyr Milwr Cymreig' (1863), *Y Drych*, 21 Chwefror, 58.
[81] 'Gohebiaeth o'r Fyddin' (1861), *Y Cenhadwr Americanaidd*, Hydref, t. 387.
[82] 'Briwsion o Ebensburg' (1861), *Y Cyfaill*, Hydref, t. 392.
[83] 'Temperance Celebration' (1862), *The Ebensburg Alleghanian,* 9 Ionawr, t. 2.
[84] Jones, *An Artilleryman's Diary*, t. 24.
[85] Ibid.
[86] Ibid., t. 26.

Mae'n glir bod Jenkin wedi ei fagu mewn cymuned grefyddol ac mae'n teimlo'n euog am ei weithredoedd pechadurus yng ngwersyll y fyddin, yn fwy na dim am y pechod o ymddwyn fel hyn ar y Sabath. I Jenkin, felly, roedd bywyd milwrol yn her fawr i'w hunaniaeth fel Cristion Cymreig, a synnai ei fod wedi newid mewn cyn lleied o amser.

Ar y llaw arall, mae sawl darn o dystiolaeth yn awgrymu bod nifer o'r Cymry yn croesawu alcohol heb iddo fygwth eu magwraeth ddiwylliannol. Daeth nifer ohonynt o gymunedau dinesig lle'r oedd bragdai ym mhobman. Prynodd James Thomas dafarn yn South Street, Philadelphia gan Gymro arall, Thomas Thomas, cyn ymrestru yn y 3ydd Pennsylvania *Heavy Artillery.*[87] Iddo ef, felly, nid oedd rhedeg tafarn ac ymwneud ag alcohol yn rhwystr i'w hunaniaeth Gymraeg. Mae'r ffaith mai Cymro arall a oedd yn prynu'r dafarn yn dangos bod alcohol yn cael ei weld fel elfen naturiol o fywyd mewn cymuned ddinesig Americanaidd. Gwelir enghraifft bellach yn *Y Drych,* pan ddisgrifiodd Cymro ei fywyd yn Scranton, Pennsylvania ar ôl y rhyfel: 'Ar Main Street mae yna Gymry yn cadw bar bron bob yn ail dŷ ... am grogshops Cymreig, whisky holes, gin mills, rum cellars ac ati, ewch i Lackawanna Avenue, Main Street a Hyde Park'.[88] O ganlyniad, roedd nifer sylweddol o wirfoddolwyr Cymreig yn awyddus iawn i yfed, ac yn gweld alcohol fel nodwedd draddodiadol o fywyd fel dinesydd Americanaidd. Gan fod y wasg Gymreig-Americanaidd yn cael ei rheoli gan weinidogion, ac ar y cyfan yn dangos gwrthwynebiaeth tuag at yfed a meddwi, nid yw'r llythyrau a gyhoeddwyd gan filwyr Cymraeg yn dangos patrwm clir o ffafrio alcohol dros amser, fel y gwelir gyda'i gohebiaeth grefyddol. Ond, ceir tystiolaeth o hyd i ddangos sut yr ymatebai gwirfoddolwyr yn bositif iawn i yfed yn y fyddin. Danfonodd Gwilym o'r 107fed Pennsylvania lythyr at *Y Gwladgarwr* yn sôn am ei brofiadau gyda byddin Cadfridog Grant:

> Gallaf eich hysbysu ein bod yn cael digon o fwyd hyd yn hyn. Yr ydym yn cael bara a crackers a wynwyn a chloron digonedd. Yr ydym hefyd yn cael cig eidion ffres a chig moch. Y mae yr ymborth yn dda a digon ohono hyd yn hyn. Gellir cael yma cyflawnder o bethau ar werth, ond ni ellir cael wisgi na dim pethau meddwol.[89]

Yn ei atgofion o fywyd gyda Byddin y Potomac, cyfaddefodd Evan Rowland Jones fod cwrw yn elfen hanfodol o'i brofiad fel milwr. Amcangyfrifodd fod gan bob cwmni yn ei gatrawd rhwng dau a deuddeg casgen o gwrw, a'r disgwyliad oedd y dylid cyfarch ffrindiau gyda gwydr o gwrw, gan wneud y gwersyll yn groesawgar iawn.[90] Tra bod cerddoriaeth yn bwysig gyda'r nos, dangosodd Jones fod hyn yn aml yn ddibynnol ar feddwi. Yn ystod y gaeaf, ffurfiodd ef a'i ffrindiau *Glee Club* lle y byddent yn ymweld â phebyll eu hoff swyddogion yn y nos i'w diddanu. Un noson, aethant i babell Cadfridog Russell i ganu, lle y cawsant eu

[87] 'James Thomas, Company E 3rd PV, Fortress Monroe' (1863), *Y Drych,* 11 Gorffennaf, 203.
[88] Davies, R. (2015), *People, Places and Passions: "Pain and Pleasure": A Social History of Wales and the Welsh, 1870-1945* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 193.
[89] 'Llythyr oddiwrth Filwr ym Myddin Grant' (1864), *Y Gwladgarwr,* 19 Tachwedd, 6.
[90] Jones, *Four Years in the Army of the Potomac,* t. 47.

gwobrwyo gydag anrheg o wisgi gan y Cadfridog. Felly, treuliwyd y gaeaf yn bwyta *oyster soup*, yn canu ac yn yfed wisgi.[91] Yn ei brofiad ef, mae'n glir bod yfed yn weithgaredd nodweddiadol o fywyd fel milwr, a'i fod yn ymfalchïo ynddo fel dull o ddatblygu perthnasau â'i gymrodorion. Yn y modd hwn, roedd y gweithgaredd o yfed wisgi gyda'i gymrodorion di-Gymreig yn cyfrannu at Americaneiddio hunaniaeth ddiwylliannol Rowland Jones.

Dadleuodd Steven Ramold fod yfed yn elfen hanfodol o fywyd cymdeithasol y fyddin. I filwyr a fu'n byw mewn diwylliant lle'r oedd alcohol yn gyffredin, daeth yfed i nodi eu statws newydd. Yn wir, roedd yfed yn ffordd o chwalu rhwystrau rhwng gwirfoddolwyr a'u swyddogion. Yn ogystal, daeth yn symbol o'u gwrywdod, gyda milwyr yn barnu ei gilydd ar eu gallu i yfed cyfeintiau gwahanol.[92] Fodd bynnag, yn fwy na hyn, roedd yfed yn weithgaredd cymdeithasol. Os mai yfed i feddwi oedd y nod, byddai milwyr yn yfed ar eu pen eu hunain ond, fel arfer, byddai milwyr yn yfed mewn grŵp, a fyddai'n rhoi cyfle iddynt gyfleu eu gwrywdod i'w gilydd.[93] Gall hyn egluro sut y gwnaeth Evan Rowland Jones feddwi gyda'i swyddogion, gan fod gweithgaredd cymdeithasol o'r fath yn ffordd o ddatblygu'r berthynas anffurfiol rhwng swyddogion a'r milwyr. Mewn perthynas â hyn, gellir gweld alcohol fel elfen ddylanwadol ar esblygiad hunaniaeth Americanaidd gwirfoddolwyr Cymreig, oherwydd yfed yn gymdeithasol oedd un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o rannu profiadau. Felly, roedd yr hunaniaeth hon yn hunaniaeth wahanol iawn i'r hyn a oedd gan y Cymry cyn ymuno â'r fyddin, ac roedd yn unigryw i'w profiad yn rhengoedd y fyddin.

Caiff hyn ei ddangos yn glir yn enghraifft Joshua T. Owen, un o'r Cymry Americanaidd prin a enillodd ddyrchafiad i fod yn Gadfridog. Pan oedd yn gyrnol i gatrawd y 69ain Pennsylvania, daeth i sylw'r wasg o dan amodau helbulus. Er enghraifft, adroddodd *The Wood County Reporter* yn Nhachwedd 1862 i'r canlynol ddigwydd i Owen:

> Court-martialled ... for conduct prejudicial to good order and military discipline, and unbecoming an officer and a gentleman.[94]

Mynnodd yr erthygl i Cyrnol Owen feddwi'n gaib, ac yn lle aros gyda'i gatrawd yn y gwersyll, cafodd ei ddarganfod ar strydoedd Harper's Ferry yn dadlau gydag is-gyrnol y gatrawd, a cafodd yr is-gyrnol ei daflu o'i geffyl gan Owen. Yna, cafodd Owen ei arestio.[95] Yn ffodus iddo, cafodd ei ryddhau ar sail ei gymeriad da a'i ddawn fel swyddog. Yn ogystal, ymgasglodd nifer o filwyr ei gatrawd i'w amddiffyn fel swyddog arbennig.[96] Roedd Owen felly yn amlwg yn cael ei barchu gan ei ddynion a'i is-swyddogion, er ei fod yn arweinydd anghonfensiynol. Yr hyn sy'n nodweddiadol yw bod poblogrwydd Owen yn ei gatrawd yn deillio'n rhannol o

[91] Ibid, t. 152.
[92] Ramold, S. J. (2010), *Baring the Iron Hand: Discipline in the Union Army* (DeKalb: Cornell University Press), t. 123
[93] Ibid.
[94] 'Gen. McClellan on Delinquent Officers' (1862), *The Wood County Reporter,* 15 Tachwedd, 2.
[95] Ibid.
[96] Ibid.

briodweddau cymdeithasol yfed alcohol. Fel y sylwir gan Steven Ramold, ac yn ôl profiad Evan Rowland Jones, roedd alcohol yn ddull effeithiol o ddymchwel y rhwystrau arferol rhwng swyddogion a'u milwyr, ac, o ganlyniad, mae'n debyg bod Owen yn cael ei barchu'n fwy oherwydd ei safbwynt ar yfed yn gymdeithasol. Felly, mae hyn nid yn unig yn enghraifft o Gymro a oedd yn ystyried bod meddwi yn hollol dderbyniol yn ddiwylliannol, ond mae hefyd yn rhoi cipolwg pellach ar rôl alcohol fel dull o Americaneiddio milwyr Cymraeg.

Casgliad

Felly, i gloi, datblygodd hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol y gwirfoddolwyr Cymreig oherwydd eu profiadau yng ngwersylloedd y fyddin. Hwn oedd y tro cyntaf i nifer ohonynt o gymunedau cefn gwlad deithio y tu hwnt i'w cymunedau clòs, cyfarwydd, Cymreig. Felly, roedd eu cyflwyniad cychwynnol i fywyd milwrol yn helbulus ac, o ganlyniad, gwelwyd ymdrech gan y Cymry i ymgynnull er mwyn creu hafan i'w diwylliant a'u hiaith. Yn fwy na dim, byddent yn cynnal cyfarfodydd crefyddol lle y gallent weddïo a thrafod yr efengyl yn y Gymraeg. Felly, ar y dechrau, pwrpas y cyfarfodydd hyn oedd cryfhau a gwarchod eu hunaniaeth draddodiadol. Er hyn, gan fod cnewyllyn o Gymry yn nifer o gatrodau'r fyddin, roedd y cyfleoedd i gyfnewid diwylliannau yn uwch o lawer. Ymhen ychydig, nid Cymreictod eu crefydd oedd yn bwysig, a bu'r Cymry'n mynychu gwasanaethau Cristnogol Saesneg â'u cymrodyr Americanaidd. Addasodd eu hanghenion ysbrydol i fywyd milwrol, a chafodd hunaniaeth newydd ei chreu a oedd wedi'i seilio ar rannu eu ffydd Gristnogol fel milwyr yr Undeb.

Roedd gweithgareddau eraill gwersyll y fyddin yr un mor ddylanwadol ond yn fwy amheus i lawer. Argaeledd alcohol oedd prif bryder y rheini a fagwyd mewn cymdeithas lem, draddodiadol Gymreig, yn enwedig y rheini o gymunedau gwledig. Gwelsent hwy'r elfen bechadurus o fywyd ym myddin yr Undeb fel rhywbeth hollol atgas, a gwnaethant ymdrech i aros yn ffyddlon i'w moesau traddodiadol. Ar y llaw arall, roedd llawer ohonynt yn Gristnogion ffyddlon ond yn hapus iawn i yfed a meddwi. Yn fwy na dim, gwelsent y weithred o yfed â'u cyd-filwyr fel defod gymdeithasol ac, fel eu ffydd ysbrydol, roedd yn ffordd hynod effeithiol o uno diwylliannau gwahanol a chreu hunaniaeth Americanaidd newydd, wedi'i selio ar eu statws fel milwyr i'r Undeb. Felly, roedd bywyd ym myddin yr Undeb yn gymhleth a heriol, ond cyfrannodd eu profiadau at y broses o Americaneiddio eu hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol.

Llyfryddiaeth

Cynradd

'Briwsion o Ebensburg' (1861), *Y Cyfaill*, Hydref, 392.

'Camp ger Cooper's Run' (1863), *Y Drych*, 4 Gorffennaf, 197.

'Chwaer y Milwr' (1862), *Y Cenhadwr*, Hydref, 388.

'Civil War Letters, 1862–1863 – Edward Owen', *Wisconsin Historical Society Archives*, Main Stacks (Reading Room), MAD 4/14/File 1862 Chwefror 5.

'Gen. McClellan on Delinquent Officers' (1862), *The Wood County Reporter*, 15 Tachwedd, 2.

'Gohebiaeth o'r Fyddin' (1861), *Y Cenhadwr Americanaidd*, Hydref, 387.

'James Thomas, Company E 3rd PV, Fortress Monroe' (1863), *Y Drych,* 11 Gorffennaf, 203.

Jones, E. R. (1881), *Four Years in the Army of the Potomac: A Soldier's Recollections* (London: Tyne Publishing Company).

Jones, J. L. (1914), *An Artilleryman's Diary with the Sixth Wisconsin Battery During the Civil War*, Civil War Classic Library (Madison: Wisconsin History Commission).

'Letter by Robert Davis, 25th Regiment, Company F', Des Moines Historical Library Manuscripts, N14/3/5, Bocs 8, Ffolder 10.

'Llythyr at Filwr' (1863), *Y Cyfaill,* Ebrill, 122.

'Llythyr Milwr Cymreig at ei Rieni' (1862), *Baner ac Amserau Cymru,* 24 Rhagfyr, 823.

'Llythyr Milwr Cymreig, Lake Providence, 9th February 1863' (1863), *Y Drych,* 14 Mawrth, 77.

'Llythyr Milwr Cymreig' (1863), *Y Drych,* 21 Chwefror, 58.

'Llythyr o Faes y Gwaed' (1864), *Y Cyfaill,* Ebrill, 124.

'Llythyr o Faes y Gwaed' (1863), *Y Cyfaill,* Ionawr, 27.

'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig yn y De Orllewin' (1864), *Y Gwladgarwr,* 20 Awst, 3.

'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig, Camp yn agos i Falmouth' (1863), *Y Drych,* 6 Mehefin, 173.

'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig, o America' (1862), *Y Gwladgarwr,* 11 Ionawr, 3.

'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig' (1863), *Y Cenhadwr Americanaidd,* Mehefin, 181.

'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig' (1863), *Y Drych,* 10 Ionawr, 1.

'Llythyr oddiwrth Filwr Cymreig' (1863), *Y Drych,* 16 Mai, 146.

'Llythyr oddiwrth Filwr ym Myddin Grant' (1864), *Y Gwladgarwr,* 19 Tachwedd, 6.

'Llythyr oddiwrth Filwr' (1864), *Y Cyfaill,* Mehefin, 183.

'Nadolig yn Centreville' (1863), *Y Drych*, 7 Chwefror, 34.

'Oddiwrth Filwr Cymreig yn Virginia at ei Frawd yn Utica' (1863), *Y Drych*, 22 Awst, 239.

'Oddiwrth Filwr Gymreig at ei Rieni yn Utica' (1863), *Y Drych*, 28 Mawrth, 93.

'Rhybudd i Feddwon' (1864), *Y Seren,* Mawrth, 69.

'Temperance Celebration' (1862), *The Ebensburg Alleghanian,* 9 Ionawr, 2.

'Y Frawdoliaeth Gristionogol yn y Fyddin' (1862), *Y Cenhadwr*, Mawrth, 114.

Eilaidd

Conway, A. (1958), 'Welshmen in Union Armies', *Civil War History*, 4, 143–74.

Davies, R. (2015), *People, Places and Passions: "Pain and Pleasure": A Social History of Wales and the Welsh, 1870–1945* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

Dollar, K. T. (2007), 'Strangers in a Strange Land: Christian Soldiers in the Early Months of the Civil War', yn Sheehan-Dean, Aaron (gol.), *The View from the Ground: Experiences of Civil War Soldiers* (Lexington: University Press of Kentucky), tt. 145–70.

Frank, J. A. (1998), *With Ballot and Bayonet: The Political Socialization of American Civil War Soldiers* (Athens: The University of Georgia Press).

Griffiths, R. H., '*The Welsh and the American Civil War c.1840–65',* traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2004.

Hunter, J. (2003), *Llwch Cenhedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America,* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Jones, W. D. (1993), *Wales in America: Scranton and the Welsh 1860–1920* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Jones, B. (2005), 'Writing Back: Welsh Emigrants and their Correspondence in the Nineteenth Century', *North American Journal of Welsh Studies*, 5, 23–46.

Jones, A. a Jones, B. (2001), *Welsh Reflections: Y Drych & America 1851–2001* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Knowles, A. K. (1997), 'Religious Identity as Ethnic Identity: The Welsh in Waukesha County', yn Ostergen, Robert C., a Vale, Thomas R. (goln), *Wisconsin Land and Life* (Madison: University of Wisconsin Press), tt. 282–99.

Knowles, A. K. (1997), *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants on Ohio's Industrial Frontier* (Chicago: University of Chicago Press).

Lewis, R. L. (2008), *Welsh Americans: A History of Assimilation in the Coalfields* (Chapel Hill: The University of North Carolina Press).

Lindsey, B. (2017), 'Alcohol, Conflict and Identity in the Civil War Defences of Washington, April 1861-March 1863', *The Midwest Quarterly*, 58, 145–60.

Lonn, E. (1951), *Foreigners in the Union Army and Navy* (Baton Rouge: Louisiana State University Press).

Maryniak, B. (2003), 'Union Military Chaplains', yn Brinsfield, John W., et al. (goln), *Faith in the Fight: Civil War Chaplains* (Mechanicsburg: Stackpole Books), tt. 3–42.

Miller, W. J. (1990), *The Training of an Army: Camp Curtin and the North's Civil War* (Shippensburg: White Mane Publishing Company).

Noll, M. A. (2006), *Civil War as a Theological Crisis* (Chapel Hill: The University of North Carolina Press).

Ramold, S. J. (2010), *Baring the Iron Hand: Discipline in the Union Army* (DeKalb: Cornell University Press).

Robertson Jr, J. I. (1998), *Soldiers Blue and Gray* (Columbia: University of South Carolina Press).

Rolfs, D. W. (2007), 'No Nearer Heaven Now but Rather Farther Off: The Religious Compromises and Conflicts of Northern Soldiers', yn Sheehan-Dean, Aaron (gol.), *The View from the Ground: Experiences of Civil War Soldiers* (Lexington: University Press of Kentucky), tt. 121–44.

Shannon, F. A. (1927), 'The Life of the Common Soldier in the Union Army, 1861–1865', *The Mississippi Valley Historical Review*, 13, 465–82.

Taylor, C. (gol.) (1972), *Wales and the American Civil War* (Aberystwyth: Llyfrgell Cenedlaethol Cymru).

Thomas, H. (1949), 'The Welsh Came to Remsen', *New York History*, 30, 33–42.

Van Vugt, W. E. (2006), *British Buckeyes: The English, Scots, and Welsh in Ohio, 1700–1900* (Kent: Kent State University Press).

Walley, Cherilyn A. (2009), *The Welsh in Iowa* (Cardiff: University of Wales Press).

Wiley, B. I. (1953), '"Holy Joes" of the Sixties: A Study of Civil War Chaplains', *Huntington Library Quarterly*, 16, 287–304.

Wiley, B. I. (1971), *The Life of Billy Yank: The Common Soldier of the Union* (New York: Louisiana University State Press).

Williams, J. G. (1993), *Memory Stones: A History of Welsh-Americans in Central New York and Their Churches* (New York: Purple Mountain Press).

Williams, R. H. (2017), *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad? Gwasg Gyfnodol Gymraeg America 1838–1866* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).